

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gymraeg Henllan

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2024**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Crynodeb

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref a doeth sy'n rhoi cyfeiriad clir i'r ysgol. Caiff ei chefnogi'n fedrus gan dîm o staff cydwybodol ac ymroddgar o fewn cymuned ddysgu ofalgar a chefnogol. Mae'r llywodraethwyr yn weithgar ac yn cefnogi a herio'r ysgol yn fwriadus. Mae gan arweinwyr adnabyddiaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r agweddau sydd angen eu gwella.

Mae staff yn arddel perthynas waith gynhyrchiol â disgyblion ac yn meithrin eu lles yn llwyddiannus. Maent yn arddangos adnabyddiaeth dda o fannau cychwyn amrywiol y disgyblion ac mae hyn yn meithrin amgylchedd dysgu ysgogol sy'n cyfrannu'n effeithiol at fwynhad disgyblion o ddysgu. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn gyfeillgar â'i gilydd ac yn gwrtais ag oedolion. Mae ymddygiad bron bob disgybl yn arbennig o dda ac maent yn teimlo'n ddiogel rhag cam-drin geiriol, emosiynol a chorfforol.

Nodwedd arbennig o fywyd a gwaith yr ysgol yw'r modd y mae'n gwasanaethu'r gymuned leol, ac o ganlyniad, mae bron bob disgybl yn arddangos balchder cynhenid tuag at eu cynefin. Mae ymrwymiad yr ysgol i'r 'Hwb Cynnes' i ddatblygu medrau ieithyddol a chymdeithasol disgyblion yn elfen nodedig o'i darpariaeth.

Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn dangos cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau, yn enwedig eu medrau digidol. Mae staff yn darparu profiadau dysgu cyfoethog sy'n ennyn a chynnal diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus. Er hyn, nid yw athrawon bob tro'n darparu tasgau sy'n herio ychydig iawn o ddisgyblion mwy abl.

Mae'r disgyblion yn falch o gyfathrebu yn y Gymraeg, ac mae'r Criw Cymraeg yn annog eu cyfoedion i siarad a defnyddio'r iaith yn ddigymell yn eu dysgu a'u chwarae. Ar brydiau, mae athrawon yn cynnig adborth buddiol i ddisgyblion ar eu gwaith. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd digon cyson i ddisgyblion ymateb i adborth er mwyn gwneud gwelliannau i'w gwaith.

Mae'r berthynas rhwng yr ysgol a'r rhieni yn gryf ac maent yn gwerthfawrogi'r cyfathrebu cyson rhwng yr ysgol a'r cartref, er enghraifft wrth dderbyn gwybodaeth reolaidd am ddigwyddiadau'r ysgol drwy e-bost neu ar eu llwyfannau digidol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud 2 argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella**

**A1 Ehangu cyfleoedd i ddisgyblion mwy abl ddatblygu eu medrau hyd eithaf eu gallu**

**A2 Sicrhau bod adborth athrawon yn cefnogi disgyblion i wella eu gwaith yn gyson**

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**

**Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r [adroddiad llawn](adroddiad llawn).**




Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/06/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.